LLAIS

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care



# Strategaeth Gwirfoddoli Llais Cymru

# Cynnwys


Cyflwyniad Cadeirydd a Phrif Weithredwr Llais 1

Beth ydym yn ceisio ei gyflawni? 2

Ein blaenoriaethau 3

Ein nodau gwirfoddoli 3

Pam fod gwirfoddolwyr mor bwysig i Llais 9

Gwerthoedd Gwirfoddoli 11


## Rheoli'r Ddogfen

| Fersiwn | Dyddiad | Awdur | Rheswm |
|---|---|---|---|
| 0.1 | 4 Mehefin 2024 | KB | Drafft cyntaf i TA |
| 0.2 | 9 Gorffennaf 2024 | KB | Diwygiadau yn dilyn adborth |

## Adolygu dogfen

| Cymeradwyd ar | Cymeradwy gan | Dyddiad Adolygu |
|---|---|---|

# Cyflwyniad

Nod y strategaeth wirfoddoli arfaethedig yw ail-ddychmygu gwirfoddoli yn Llais Cymru, gan ei wneud yn fwy cynhwysol, yn fwy dylanwadol, ac yn cyd-fynd â'n nodau sefydliadol. Drwy ganolbwyntio ar y nodau strategol hyn, gallwn greu rhaglen wirfoddoli sydd nid yn unig o fudd i'n sefydliad ond sydd hefyd yn grymuso ac yn ymgysylltu â'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Mae'r strategaeth hon yn ddogfen fyw, sy'n agored i'w haddasu a'i gwella wrth i ni barhau i ddysgu a thyfu. Croesewir eich adborth a'ch awgrymiadau wrth i ni gydweithio i gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer gwirfoddoli yn Llais Cymru.



Yr Athro Medwin Hughes, Cadeirydd



Alyson Thomas, Prif Weithredwr

# Beth ydym yn ceisio ei gyflawni?

Credwn mewn Cymru iachach. System iechyd a gofal cymdeithasol lle mae pobl yn cael y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt mewn ffordd sy'n gweithio orau iddynt ac sy'n barod ar gyfer beth bynnag a ddaw yn y dyfodol.

Ein cenhadaeth yw gwrando'n ofalus, yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, a chynyddu effaith lleisiau pobl wrth lunio gwasanaethau. **Rydym yn gwneud hyn drwy:**

### Ymgysylltu

rydym yn ymgysylltu ac yn gwrando ar bobl am eu profiadau o iechyd a gofal cymdeithasol. Rydyn ni'n ceisio cwrdd â chymunedau yn y lleoedd sy'n gweithio orau iddyn nhw.

### Cynrychioliadau

rydym yn cynrychioli'r safbwyntiau a glywn i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Yn ôl y gyfraith, rhaid iddynt roi gwybod i ni bethmaent yn bwriadu ei wneud â'r safbwyntiau a'r profiadau yr ydym yn eu rhannu.

### Eiriolaeth cwynion

rydym yn helpu ac yn cefnogi pobl pan aiff pethau o chwith, ac maent am wneud cwyn trwy broses gwyno ffurfiol y GIG neu eu hawdurdod lleol. Rydym hefyd yn darparu cyngor lle y gallwn i'r rhai nad ydynt wedi dechrau'r broses hon.

### Cyfathrebu a hyrwyddo

Byddwn yn sicrhau bod pobl yn gwybod am ein gwasanaethau fel bod mwy o bobl yn gallu dweud eu dweud. Mae gan y cyrff iechyd a'r Awdurdodau lleol ddyletswydd gyfreithiol i hyrwyddo ein gwasanaethau hefyd.

## Rydyn ni eisiau i CHI fod yn rhan o hyn.

# Ein Blaenoriaethau

Rydym yn addo pobl Cymru y byddwn yn herio'r rhai sy'n gyfrifol am y system iechyd a gofal cymdeithasol i fuddsoddi mewn newid, i greu system iechyd a gofal cymdeithasol gref, teg ac arloesol.

**Byddwn yn gwneud hynny drwy eich cynnwys yn ein 5 blaenoriaeth:**

1. Gyrru sgwrs genedlaethol am ddyfodol gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
2. Gwthio am wasanaethau sy'n bodloni anghenion pawb.
3. Cydweithio'n well.
4. Helpu pobl a gwasanaethau i ddefnyddio technoleg mewn ffyrdd sy'n gweithio iddyn nhw.
5. Tyfu a gwella fel sefydliad.

Gallai eich cyfranogiad gynnwys cefnogi Llais i ehangu ein llais a chyrhaeddiad, ein cysylltu â phobl a chymunedau ac ysbrydoli eraill, gan ddod â gwybodaeth leol.

# Ein Nodau Gwirfoddoli

Sut bynnag rydych chi'n ein cefnogi, rydyn ni am i'ch profiad fod yn werthfawr, yn werth chweil, yn cael effaith ac yn gwneud y gorau o'r amser rydych chi'n dewis ei roi.

# 1. Diwylliant newydd o wirfoddoli



Adeiladu diwylliant sy'n adlewyrchu ein gwerthoedd a'n hymddygiad. Trwy sicrhau bod gwirfoddolwyr yn deall eu rolau ac yn teimlo'n barod, gallwn greu awyrgylch cefnogol lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Ein nod yw gwreiddio diwylliant o hyblygrwydd a chynwysoldeb yn ein rhaglen wirfoddoli. **Byddwn yn:**

- Alinio pob gweithgaredd gwirfoddol gyda nodau Llais.
- Creu awyrgylch croesawgar a chefnogol i bob gwirfoddolwr.
- Datblygu ffyrdd creadigol a hyblyg sy'n ein helpu i wneud gwirfoddoli'n haws.
- Helpu ein staff i ddeall sut mae gwirfoddoli yn ychwanegu gwerth at ein gwaith ac archwilio ffyrdd newydd o gynnwys gwirfoddolwyr.
- Helpu i dyfu diwylliant sy'n gwerthfawrogi hyblygrwydd a chynwysoldeb lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel i godi eu llais a dweud pan nad yw pethau'n iawn.
- Gwneud yn siŵr bod ein rhaglenni gwirfoddolwyr a'n hymgysylltiadau cymunedol yn gynhwysol, gan estyn allan at grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed.
- Gwneud yn siŵr bod gwirfoddolwyr yn gwybod beth yw eu rolau ac yn teimlo'n barod i wirfoddoli i ni.
- Hyrwyddo ymddygiadau a gwerthoedd sy'n cyd-fynd â'n cenhadaeth a'n gwerthoedd.
- Rydym am weithio gyda phob cymuned ledled Cymru a bod yn gorff gwirioneddol gynrychioliadol ar gyfer llais dinasyddion. Felly byddwn yn annog mwy o bobl i wirfoddoli gyda ni, ac o ystod ehangach o gefndiroedd.
- Byddwn yn annog mwy o bobl ifanc 16-25 oed i wirfoddoli i Llais fel y gallwn ddysgu mwy am yr hyn y mae pobl iau yn ei ddisgwyl gan eu hiechyd a'u gofal cymdeithasol.

# 2. Gwneud gwahaniaeth



Rydych chi'n allweddol i wneud newid gwirioneddol yn ein cymunedau ac yn ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Rydym am i chi deimlo bod eich ymdrechion o bwys.

Trwy roi'r offer, y cyfleoedd a'r gydnabyddiaeth gywir i chi, gallwn gael mwy o effaith yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

**Byddwn yn:**

- Dod o hyd i gyfleoedd i chi ein cynrychioli a dylanwadu ar bolisïau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- Dathlu a chydnabod ymdrechion ein gwirfoddolwyr a dod o hyd i ffyrdd newydd o gydnabod eich cyfraniadau.
- Darparu popeth sydd ei angen arnoch fel y gallwch fod yn llysgennad effeithiol i Llais a phobl Cymru.
- Creu amgylchedd sy'n galluogi pob gwirfoddolwr i lwyddo a chyfrannu'n ystyrlon.

# 3. Bod yn rhan o rywbeth mwy




Mae gwirfoddoli gyda ni yn golygu bod yn rhan o ymdrech fwy i wella iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Rydym am i chi deimlo'n gysylltiedig â'n cenhadaeth, deall eich cyfraniad a gweld canlyniadau eich ymdrechion.

Mae'r ymdeimlad hwn o gymuned yn bwysig i gadw pawb yn llawn cymhelliant ac yn falch o'r hyn a wnawn. **Byddwn yn:**

- Adeiladu ymdeimlad o berthyn yng nghymuned wirfoddoli Llais ledled Cymru, gan feithrin perthnasoedd yn seiliedig ar werthoedd a rennir.
- Darparu ffyrdd i chi ymgysylltu â nodau strategol a blaenoriaethau rhanbarthol Llais a'ch helpu i ddeall sut mae'r gwaith a wnewch yn ein helpu i gyflawni ein nodau.
- Cydlynu ein cyfleoedd gwirfoddoli fel y gallwch gymryd rhan ar draws rhanbarthau ac mewn digwyddiadau cenedlaethol.
- Datblygu cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau gwirfoddoli eraill a gweithio ar brosiectau ei gilydd.
- Gwneud yn siŵr eich bod yn cael cyfathrebu clir ac amserol gan gynnwys diweddariadau a gwybodaeth o bob rhan o Llais yn rheolaidd.

# 4. Galluogi Cymunedau



Ein nod yw eich arfogi a'ch cefnogi i ysbrydoli ac annog pobl leol i leisio'u barn a chymryd rhan yn y gwaith o lunio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer eu cymunedau.

**Byddwn yn:**

- Creu cyfleoedd i chi gynrychioli buddiannau cymunedol mewn trafodaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
- Sefydlu sianeli clir i chi gasglu adborth gan eich cymunedau a'i gyfleu i ni ar gyfer gweithredu, ac i'r gwrthwyneb.
- Darparu popeth sydd ei angen arnoch i gefnogi ac ysgogi eich cymunedau yn effeithiol, fel y gallwch ysbrydoli eraill i ddweud eu dweud ar faterion iechyd a gofal cymdeithasol.
- Cefnogi datblygiad rhwydweithiau lleol lle gall aelodau'r gymuned rannu profiadau a chydweithio ar nodau iechyd a gofal cymdeithasol cyffredin.

# 5. Gweithredu yn seiliedig ar fewnwelediadau

I wneud newid gwirioneddol, mae angen i ni ddefnyddio gwybodaeth a mewnwelediadau i lywio'r hyn a wnawn. Trwy geisio ac ystyried adborth yn rheolaidd gan ein gwirfoddolwyr, cymunedau, a phartneriaid, gallwn wneud penderfyniadau call sy'n cael effaith fawr.

Fel hyn, gallwn ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i anghenion y rhai yr ydym yn eu gwasanaethu.

**Byddwn yn:**

- Casglu a gweithredu ar eich adborth i wella ein systemau, ein dulliau gwaith a'n penderfyniadau.
- Cynnig weithdai ar ddefnyddio offer digidol, a thechnegau ymgysylltu effeithiol, i'ch helpu i gysylltu â'ch cymunedau ac osgoi unrhyw un rhag cael ei adael allan.
- Darparu data perfformiad a mewnwelediadau i chi mewn ffordd hawdd ei deall fel y gallwn olrhain effaith newidiadau.
- Darparu hyfforddiant a datblygiad rôl-benodol fel bod gennych y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnoch ar gyfer y gwahanol rolau sydd gennym.
- Rhoi diweddariadau rheolaidd i chi ar sut rydym wedi gwneud gwelliannau a beth sydd wedi'i wneud gyda'r wybodaeth rydych wedi'i rhoi i ni.



# Pam fod gwirfoddolwyr mor bwysig i Llais?

Ni yw corff llais y dinesydd ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Po fwyaf o leisiau a glywn o'r cymunedau niferus sy'n rhan o Gymru, y mwyaf y gallwn ddylanwadu ar newid a helpu i lunio gwasanaethau sy'n adlewyrchu holl anghenion cymdeithas.

**Mae gwirfoddolwyr yn ein helpu i wneud hyn mewn sawl ffordd:**

01 **Rydych yn ehangu ein llais a'n cyrhaeddiad** – gan ddylanwadu ar newid a'n helpu i gasglu ystod ehangach o brofiadau a mewnwelediadau.

02 **Rydych chi'n ein cysylltu ni â phobl a chymunedau** – gan ein helpu i ymateb i anghenion lleol a meithrin ymddiriedaeth.

03 **Mae eich angerdd yn ysbrydoli eraill** – gallwch chi helpu i feithrin gallu cymunedau lleol i gymryd rhan weithredol yn eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac annog eraill i gymryd rhan a dweud eu dweud.

04 **Rydych chi'n dod â gwybodaeth leol** – rydych chi'n deall yr hyn sy'n bwysig i bobl o'ch cwmpas chi, gallwch chi empathi ac uniaethu, a gallwch chi ddefnyddio'r arbenigedd hwnnw i helpu i lunio gwasanaethau mewn ffordd sy'n gweithio i'ch ardal chi.

05 **Mae gennych ymrwymiad hirdymor i'ch maes** – sy'n golygu y byddwch yn ein helpu i sicrhau bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn meddwl am y tymor hwy.

Rydym am i'n gwirfoddolwyr gynrychioli holl bobl Cymru, nid dim ond y rhai sy'n aml yn cael clywed eu dymuniadau a'u teimladau.

Rydym angen pobl o amrywiaeth o gefndiroedd, gyda phrofiadau gwahanol, i siarad ag eraill, dal eu barn a dangos bod Llais yn cynrychioli pawb.

## Rhai o’r ffyrdd y mae gwirfoddolwyr yn cefnogi ein gwaith:



### Ymweliadau
Byddwch yn cwrdd â phobl ar-lein neu’n bersonol mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol ar ymweliadau a drefnwyd ymlaen llaw i ddeall beth maen nhw’n meddwl sy’n gweithio a beth allai fod yn well.

### Ymgysylltu
Byddwch yn ymuno â’n timau Llais i gwrdd â phobl ar-lein ac wyneb yn wyneb yn lleol, yn rhanbarthol, neu’n genedlaethol i gasglu eu barn a’u profiadau o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

### Ar-lein
Byddwch yn ymuno â’n timau Llais i gwrdd â phobl ar-lein ac wyneb yn wyneb yn lleol, yn rhanbarthol, neu’n genedlaethol i gasglu eu barn a’u profiadau o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

### Cynrychioli Llais
Byddwch yn mynychu cyfarfodydd a digwyddiadau ar ran Llais, gan gyflwyno ein safbwynt yn seiliedig ar yr hyn a wyddom, a gwneud nodiadau o’r cyfarfod i adrodd yn ôl ar wybodaeth berthnasol.

### Gweithgareddau yn eich cymuned
Byddwch yn hyrwyddo ein gwasanaethau a sut rydych yn casglu adborth a mewnwelediadau, yn helpu i gefnogi ein prosiectau cymunedol, ac yn bod yn llysgennad i ni yn eich cymuned.



### Ymuno â ni ar gyfer prosiectau a digwyddiadau sy’n bwysig i chi
Sicrhau bod eich llais yn cael ei glywed ar y pethau sydd bwysicaf i chi, annog eraill i gymryd rhan a helpu i gysylltu ag eraill sydd â diddordeb.

### Helpu i lywio a dylanwadu ar y ffordd rydym yn gweithio
Dweud eich dweud wrth ein helpu i wella’r ffordd rydym yn gweithio a chyfathrebu er mwyn ein gwneud yn well.

# Ein Gwerthoedd

Mae ein **gwerthoedd yn helpu i arwain popeth a wnawn**, y ffordd yr ydym yn gweithio gyda'n gilydd, y penderfyniadau a wnawn a'r hyn yr ydym yn adnabyddus amdano.



## Person-ganolog

Rydym yn rhoi anghenion a phrofiadau pobl wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau

## Cydweithio

Rydym yn gynhwysol ac yn hygyrch. Rydym yn gweithio fel un tîm gyda nodau a rennir, o fewn ein sefydliad ac yn allanol






## Uniondeb

Rydym yn annibynnol, yn onest, yn atebol ac yn dryloyw am ein gwaith.

**Llais**
3ydd Llawr
33 – 35 Heol Y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9HB

02920 235 558

ymholiadau@llaiscymru.org
www.llaiscymru.org

LlaisCymruWales
Llais_Cymru
Llais_Cymru
Llaiscymru
Llais-Cymru
Llais_Cymru